

Ysgrifennu Ymateb Beirniadol/ Critigol

Beth a olygir gan 'beirniadol'?

Nid yw bod yn feirniadol yn golygu i feirniadu mewn ffordd gwbl negyddol. Mae bod yn feirniadol o destun yn golygu eich bod yn cwestiynu'r wybodaeth ac unrhyw farn sy'n ymddangos yn y testun, mewn ymgais i werthuso neu farnu ei werth.

Darllen y testun: Pwyntiau i'w hystyried

Darllenwch yr erthygl yn ofalus.

- Pwy yw'r gynulleidfa darged?
- Beth yw bwriad yr awdur?
 - I gynnal arolwg a chrynhoi gwaith ymchwil ar bwnc?
 - I gyflwyno dadl sy'n adeiladu ar ymchwil o'r gorffennol?
 - I wrthbrofi dadl ysgrifennwr arall?
- A yw'r awdur yn diffinio termau pwysig?
- A yw'r wybodaeth yn y testun yn ffaith neu farn?
 - A yw'r wybodaeth yn ymddangos ei fod wedi ei ymchwilio mewn ffyrdd addas neu a yw'r wybodaeth yn ddigefnogaeth?
- Beth yw dadl ganolog neu gasgliad yr awdur? Caiff rhain eu datgan yn glir?
 - Oes tystiolaeth a dadansoddi i'w cefnogi?
- A yw'r testun yn rhoi gwybodaeth ddisgwyliedig?
- A yw'r testun wedi'i drefnu yn rhesymegol ac yn hawdd i'w ddilyn?
- A yw'r arddull yr awdur yn addas at y gynulleidfa?
- A yw'r iaith yr awdur yn wrthrychol, neu'n llawn emosiwn a rhagfarn?

Ar ôl ymgyfarwyddo â'r testun, gwneud nodiadau ar rai o'r cwestiynau canlynol. Dewiswch y cwestiynau sy'n ymddangos yn addas:

- Pa fath o erthygl yw hi (er enghraifft mae'n ei cyflwyno data neu a yw'n cyflwyno dadleuon damcaniaethol yn unig)?
- Beth yw'r prif faes dan sylw?
- Beth yw'r prif ganfyddiadau?
- Beth yw'r cyfyngiadau a nodir?
- Beth yw sail data a thystiolaeth yr awdur? A ydynt yn briodol / yn ddigonol?
- Beth yw'r prif faterion a gyfir gan yr awdur?
- Pa gwestiynau a gyfir?
- Sut ymatebir i rhain?
- Beth yw'r prif bwyntiau / dehongliadau a wnaed gan yr awdur o ran y materion a godwyd?
- A yw'r testun yn gytbwys? A yw'n deg / rhagfarnllyd?
- A oes pwyntiau anghyson?
- Sut mae hyn i gyd yn ymwneud â llenyddiaeth arall ar y pwnc hwn?
- Sut mae hyn i gyd yn ymwneud â'ch profiad, syniadau a'ch barn bersonol?

Cynlluniwch ac ysgrifennwch y drafft cyntaf

Efallai y bydd y **paragraff cyntaf** yn cynnwys:

- pwrpas yr awdur wrth ysgrifennu'r erthygl
- sylwadau ar sut mae'r erthygl yn ymwneud â gwaith arall ar yr un pwnc

Dylai **corff** yr adolygiad:

- grynhoi'r testun i'w prif bwyntiau a'r syniadau pwysicaf
- ffocysu ar bwyntiau o fewn yr erthygl yr ydych yn canfod yn ddiddorol
- nodi eich dadleuon
- gynnwys dyfyniadau o'r erthygl sy'n cefnogi'ch prif syniadau.

Efallai y byddwch yn ateb y cwestiynau canlynol:

A yw'r safbwynt yn bwysig yng nghyd-destun addysgu a dysgu Cymraeg? Os felly, pam?

A oes dogfennaeth / polisi / cwricwlwm perthnasol yng Nghymru sy'n cefnogi eich barn?

Gall y **paragraff olaf**:

- grynhoi eich adolygiad;
- ailddatgan eich barn gyffredinol am y testun;
- gynnig argymhellion yn fras.

Cyfeirnodau

Cyfeiriwch at y Llawlyfr Cyfeirnod (ar Moodle) wrth lunio'r Rhestr Cyfeirnodau.

Dylech gyfeirnodu'r testunau a gyfeiriwyd atynt yn y aseiniad yn unig. *Nid* oes gofyn i chi gynnwys llyfryddiaeth (h.y. testunau a ddarllenwyd ond *ni* dyfynnwyd/cyfeiriwyd atynt o fewn y gwaith).

Adolygwch eich gwaith

Neilltuwch amser digonol i wneud adolygiad sylweddol sy'n egluro unrhyw resymeg neu ddadleuon dryslyd. Wrth i chi adolygu eich gwaith, dylech ystyried agweddau lluosog o'ch ysgrifennu i wneud yn siŵr y bydd eich darllenwyr yn gallu deall yr hyn yr ydych wedi ei ysgrifennu. Ystyriwch y cwestiynau canlynol wrth i chi adolygu eich gwaith:

- Beth yw eich prif bwynt? Sut allech chi egluro eich prif bwynt?
- Pwy yw eich cynulleidfa? Ydych chi wedi ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau?
- Beth yw eich pwrpas? Ydych chi wedi cyflawni eich pwrpas gyda aseiniad hwn?
- Pa mor effeithiol yw eich tystiolaeth? Sut allech chi gryfhau eich tystiolaeth?
- A yw pob rhan o'ch aseiniad cyfeirio'n ôl at eich dadl? Sut y gallech wella'r cysylltiadau hyn?
- A yw'ch iaith a'r drefn yn glir? Sut allech chi sicrhau cywirdeb iaith a threfn hwylus?
- A ydych chi wedi gwneud unrhyw gamgymeriadau gramadeg, atalnodi, neu sillafu? Sut allwch chi gywiro'r gwallau hyn?
- Oes gwallau wrth ddyfynnu neu wrth gyfeirnodu?
- Beth allai rhywun sy'n anghytuno gyda chi ddweud am eich aseiniad? Sut y gallwch chi fynd i'r afael â'r dadleuon gwrthwynebol hyn yn eich aseiniad?

Cwblhewch eich aseiniad drwy brawfddarllen fersiwn printiedig o'ch drafft terfynol yn ofalus. Darllenwch eich aseiniad yn uchel (ar goedd) er mwyn sicrhau eich bod wedi nodi unrhyw wallau teipio, gwallau gramadegol, brawddegau amleiriog neu anghyflawn, a mân gamgymeriadau eraill a allai cael effaith negyddol ar eich gradd.